Y Comisiwn Etholiadol

Etholiad cyffredinol Senedd y DU, Mehefin 2017

Hydref 2017

Fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn print bras neu fersiwn Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:
Ffôn: 020 7271 0500
E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwylio etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb.

Cynnwys

Cynnwys **3**
1 Cyflwyniad **4**
2 Y rhai sydd â hawl i bleidleisio **5**
Pleidleiswyr tramor 6
3 Nifer y pleidleiswyr **7**
Papurau pleidleisio a wrthodwyd 9
4 Pleidleisio drwy'r post **9**
Papurau pleidleisio drwy'r post a wrthodwyd 10
5 Dirprwyon a hepgoriadau **12**
6 Atodiad A **12**
7 Atodiad B **13**

1 Cyflwyniad

1.1 Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwylio etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn casglu ac yn dadansoddi data etholiadol ar ôl pob etholiad a refferendwm.

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad ar y cyfranogiad yn etholiad cyffredinol Senedd y DU (UKPGE) a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2017 a'r modd y gweinyddwyd yr etholiad hwnnw. Ar gyfer hyn, casglwyd data gan Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol ledled Prydain Fawr a Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon (EONI). Roedd hyn yn cynnwys y datganiad o Ganlyniad y Bleidlais, y Ffurflen K statudol 'Datganiad o ran Papurau Pleidleisio drwy'r Post' a ffurflen data ychwanegol, a nodwyd gan y Comisiwn, a oedd yn cynnwys data yn ymwneud â chofrestru etholiadol, y nifer a bleidleisiodd, pleidleisio absennol a phapurau pleidleisio a wrthodwyd.

1.3 Arweiniodd yr etholiad at senedd grog, ac ni enillodd unrhyw blaid fwyafrif cyffredinol. Enillodd y Ceidwadwyr 317 o seddi (42.2% o bleidleisiau) o gymharu â 262 o seddi (40.0% o bleidleisiau) ar gyfer Llafur, 35 o seddi ar gyfer yr SNP (3.1% o bleidleisiau), 12 o seddi (7.4% o bleidleisiau) ar gyfer y Democratiaid Rhyddfrydol a 10 sedd (0.9% o bleidleisiau) ar gyfer y DUP.

Tabl 1.1: Crynodeb

	Y rhai sydd â hawl i bleidleisio	Pleidleiswyr post	Nifer y pleidleiswyr	Nifer y pleidleiswyr post	Nifer a aeth i orsaf bleidleisio	Papurau pleidleisio a wrthodwyd	Pleidleisiau drwy'r post a wrthodwyd
Lloegr	39.3 m	18.2%	69.3%	85.3%	66.2%	0.2%	2.4%
De-ddwyrain Lloegr	6.5 m	17.8%	71.4%	85.5%	68.7%	0.3%	2.0%
Dwyrain Canolbarth Lloegr	4.1 m	15.0%	67.1%	86.0%	64.4%	0.3%	3.7%
Gogledd-orllewin Lloegr	5.3 m	19.5%	68.0%	84.3%	64.6%	0.2%	2.7%
Dwyrain Canolbarth Lloegr	3.4 m	18.2%	69.4%	86.6%	66.0%	0.2%	2.5%
Llundain	5.5 m	16.7%	70.2%	83.0%	68.1%	0.3%	2.4%
Swydd Efrog a'r Humber	3.9 m	19.3%	66.5%	85.8%	62.4%	0.2%	2.4%
Dwyrain	4.4 m	17.1%	69.9%	85.8%	67.0%	0.2%	1.9%

Lloegr							
De-orllewin Lloegr	4.2 m	18.9%	72.1%	86.9%	69.0%	0.2%	2.2%
Gogledd-ddwyrain Lloegr	1.9 m	26.6%	66.1%	84.9%	60.0%	0.2%	2.2%
Yr Alban	4.0 m	19.4%	66.8%	82.9%	63.3%	0.1%	2.0%
Cymru	2.3 m	19.4%	68.7%	84.4%	65.3%	0.2%	2.2%
GI	1.2 m	1.9%	65.6%	89.0%	65.2%	0.4%	4.0%
Y DU	**46.8 m**	**18.0%**	**69.0%**	**85.1%**	**65.9%**	**0.2%**	**2.4%**

2 Y rhai sydd â hawl i bleidleisio

2.1 Rhoddodd yr etholiad gyfle i fwy na 46.8 miliwn o etholwyr cofrestredig bleidleisio. Er gwaethaf gostyngiad bach (2.7%) yn yr Alban o gymharu ag etholiad cyffredinol y DU yn 2015, dyma'r nifer fwyaf erioed o etholwyr ar gyfer pleidlais y DU gyfan.

Tabl 2.1: Etholwyr, 2010-2017

	2010	**2015**	**newid canrannol 2010-15**	**2017**	**newid canrannol 2015-17**
Lloegr	38.3 m	38.7 m	1.1%	39.3 m	**1.4%**
Yr Alban	3.9 m	4.1 m	6.1%	4.0 m	**-2.7%**
Cymru	2.3 m	2.3 m	0.7%	2.3 m	**0.8%**
Gogledd Iwerddon	1.2 m	1.2 m	5.8%	1.2 m	**0.5%**
Y DU	45.6 m	46.4 m	1.7%	46.8 m	**1.0%**

2.2 Ledled y DU, ychwanegwyd mwy nag 1.3 miliwn o etholwyr (2.7% o'r rhai oedd â hawl i bleidleisio) at y gofrestr etholiadol yn ystod yr wythnosau yn arwain at yr etholiad.[1]

[1]Darparwyd data ar gyfer 63.5% o'r cofnodion cofrestru etholiadol ym Mhrydain Fawr gan gipio ychwanegiadau rhwng yr ail a'r trydydd hysbysiad o newid. Amcangyfrif GI yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd ar gyfer 3 Mai - 1 Mehefin.

2.3 Ledled Prydain Fawr, amcangyfrifwyd bod 2.4 miliwn o geisiadau i gofrestru wedi'u derbyn yn yr wythnosau yn arwain at yr etholiad. Cofnodwyd mwy na thraean ohonynt (36.9%) fel cofrestriadau dyblyg[2] ac amcangyfrifwyd bod 226,565 o unigolion wedi gwneud cais i gofrestru ar ôl y dyddiad cau i gofrestru.

2.4 Cofnododd Swyddogion Canlyniadau fod tua 10,500 o unigolion wedi ceisio pleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad er nad oeddent wedi cofrestru. Caiff y data hyn eu cofnodi yn anghyson ac ni chawsom ffurflen ddata gyflawn gan bob etholaeth.[3]

Pleidleiswyr tramor

2.5 Ledled Prydain Fawr, roedd tua 285,000 o bleidleiswyr tramor cofrestredig (0.6% o'r etholaeth). Roedd hyn yn amrywio o 0.1% mewn 20 etholaeth i 6.0% mewn dwy etholaeth yn Llundain (Dulwich a Gorllewin Norwood a Streatham).[4]

Tabl 2.2: Pleidleiswyr tramor

Rhanbarth	Pleidleiswyr tramor	% o'r rhai sydd â hawl i bleidleisio
Lloegr	260,987	0.7%
De-ddwyrain Lloegr	56,208	0.9%
Gorllewin Canolbarth Lloegr	17,162	0.4%
Gogledd-orllewin Lloegr	24,916	0.5%
Dwyrain Canolbarth Lloegr	18,269	0.5%
Llundain	60,386	1.1%
Swydd Efrog a'r Humber	17,156	0.4%
Dwyrain Lloegr	28,218	0.6%
De-orllewin Lloegr	31,182	0.7%
Gogledd-ddwyrain Lloegr	7,490	0.4%
Yr Alban	15,731	0.4%
Cymru	8,480	0.4%
Prydain Fawr	**285,198**	**0.6%**

[2] Darparwyd data ar gyfer 62.2% o'r cofnodion cofrestru etholiadol ym Mhrydain Fawr gan gipio ceisiadau rhwng yr ail a'r trydydd hysbysiad o newid.
[3] Derbyniwyd data gan 449 o etholaethau ledled y DU.
[4] Derbyniwyd data gan 612 o etholaethau ledled Prydain Fawr.

3 Nifer y pleidleiswyr

3.1 Mae'r dull o fesur nifer y pleidleiswyr y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn, 'nifer y papurau pleidleisio yn y blwch pleidleisio', yn cynnwys pob pleidlais ddilys a fwriwyd ('nifer y papurau pleidleisio gyda phleidleisiau dilys') a phleidleisiau a wrthodwyd yn y cyfrif. Mae cyfanswm y pleidleiswyr yn cyfeirio at y pleidleisiau dilys a fwriwyd, y pleidleisiau a wrthodwyd yn y cyfrif, a'r rhai a wrthodwyd ar y cam dilysu papurau pleidleisio drwy'r post cyn y cyfrif.

3.2 Mae Tabl 3.1 yn cadarnhau mai dim ond nifer fach o bleidleisiau a fwriwyd na chânt eu neilltuo i ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad. Mae'r ffigur hwn wedi gostwng ychydig ers 2015 a 2010.

Tabl 3.1: Nifer y pleidleiswyr

	Etholwyr	Nifer y papurau pleidleisio gyda phleid-leisiau dilys	Nifer y papurau pleidleisio yn y blwch pleidleisio	Cyfanswm a bleid-leisiodd	Y gwahaniaeth yn y pleidleisiau dilys – cyfanswm (pc)
2017					
Y DU	**46.8 m**	**68.8%**	**69.0%**	**69.3%**	**0.5**
Lloegr	39.3 m	69.1%	69.3%	69.7%	0.5
Yr Alban	4.0 m	66.7%	66.8%	67.1%	0.4
Cymru	2.3 m	68.5%	68.7%	69.0%	0.5
GI	1.2 m	65.4%	65.6%	65.7%	0.5
2015					
Y DU	**46.4 m**	**66.2%**	**66.4%**	**66.9%**	**0.7**
Lloegr	38.7 m	66.0%	66.2%	66.7%	0.7
Yr Alban	4.1 m	71.0%	71.1%	71.5%	0.5
Cymru	2.3 m	65.7%	65.8%	66.3%	0.6
GI	1.2 m	58.1%	58.4%	58.5%	0.4
2010					
Y DU	**45.6 m**	**65.1%**	**65.3%**	**65.8%**	**0.7**

3.3 Roedd nifer y papurau pleidleisio yn y blychau pleidleisio ledled y DU yn 69.0%, sy'n uwch na'r nifer a bleidleisiodd yn etholiadau 2015 a 2010.

Siart 3.1: Y ganran a bleidleisiodd 2010-2017



3.4 Ar lefel etholaeth, amrywiodd y nifer a bleidleisiodd o 53.5% yng Ngogledd-ddwyrain Glasgow i 79.9% yn Twickenham. Gwelwyd y cynnydd mwyaf o gymharu â 2015 yn Foyle, lle cafwyd cynnydd o 12.0% yn nifer y rhai a bleidleisiodd.

Tabl 3.2: Etholaethau â'r nifer leiaf a'r nifer fwyaf a bleidleisiodd

Nifer leiaf a bleidleisiodd	
Gogledd-ddwyrain Glasgow	53.5%
Canol Leeds	53.8%
Dwyrain Glasgow	55.0%
Gorllewin West Bromwich	55.2%
Canol Manceinion	55.6%
Nifer fwyaf a bleidleisiodd	
St Albans	79.3%
Caer-wynt	79.3%
Gorllewin Rhydychen ac Abingdon	79.5%
Richmond Park	79.5%
Twickenham	79.9%

Papurau pleidleisio a wrthodwyd

3.5 Cyfran y papurau pleidleisio a wrthodwyd yn y cyfrif oedd 0.2%. Mae hyn yn cymharu â 0.3% yn 2015.

Tabl 3.3: Papurau pleidleisio a wrthodwyd yn y cyfrif, 2015-2017

	2015	2017	Newid (pc)
Lloegr	0.4%	0.2%	-0.1
Yr Alban	0.1%	0.1%	0.0
Cymru	0.2%	0.2%	0.0
GI	0.7%	0.4%	-0.3
Y DU	**0.3%**	**0.2%**	**-0.1**

3.6 Cafwyd y lefel uchaf o bapurau pleidleisio a wrthodwyd yng Ngogledd Iwerddon (0.4%) a'r lefel isaf yn yr Alban (0.1%). Ar lefel etholaeth, gwrthododd 81 o etholaethau 0.1% o bapurau pleidleisio. Fel yn 2015, gwelwyd y gyfradd wrthod uchaf yn sedd Llefarydd Tŷ'r Cyffredin, Buckingham, lle y gwrthodwyd 3.6% o'r pleidleisiau.

3.7 Ledled y DU, gwrthodwyd y mwyafrif helaeth o bapurau pleidleisio (71.9%) am nad oeddent wedi cael eu marcio neu am eu bod yn gwbl ddi-rym oherwydd ansicrwydd. Gwrthodwyd bron chwarter (24.9%) am eu bod wedi pleidleisio dros fwy nag un ymgeisydd.

Tabl 3.4: Rhesymau dros bleidleisiau a wrthodwyd, 2017

	Dim marc swyddogol	Pleidleisio fwy nag unwaith	Ysgrifen neu farc a oedd yn ei gwneud yn bosibl i rywun adnabod y pleidleisiwr	Heb ei farcio neu'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd	Gwrthodwyd yn rhannol
Lloegr	0.9%	24.0%	1.8%	72.8%	0.5%
Yr Alban	0.1%	21.7%	1.0%	77.3%	0.0%
Cymru	0.1%	25.3%	1.9%	72.7%	0.0%
GI	0.6%	50.0%	4.3%	45.1%	0.0%
Y DU	**0.8%**	**24.9%**	**1.9%**	**71.9%**	**0.4%**

4 Pleidleisio drwy'r post

4.1 Cyfanswm y pleidleisiau post a ddosbarthwyd ar gyfer yr etholiad cyffredinol oedd 8.4 miliwn, yn cynrychioli 18.0% o'r holl etholwyr. Mae hyn yn cymharu â 16.4% yn 2015 a 15.3% yn 2010.

4.2 Ar lefel etholaeth, roedd pleidleiswyr post yn amrywio o 1.0% yng Ngorllewin Belfast i 44.3% yng Ngogledd Newcastle upon Tyne.

4.3 Fel yn 2015, gwelwyd y cynnydd mwyaf o gymharu â'r etholiad blaenorol, yn yr Alban, lle y cynyddodd nifer y pleidleisiau drwy'r post 1.8pc o 17.6% i 19.4%. Erys pleidleisio drwy'r post yn llawer llai cyffredin yng Ngogledd Iwerddon (1.9%) lle mae rheolau gwahanol mewn grym.

Tabl 4.1: Pleidleisio drwy'r post 2015-2017

	2015	2017	Newid (pc)
Lloegr	16.7%	18.2%	1.5%
Yr Alban	17.6%	19.4%	1.8%
Cymru	17.7%	19.4%	1.7%
Gogledd Iwerddon	1.4%	1.9%	0.5%
Y DU	**16.4%**	**18.0%**	**1.6%**

4.4 Mae cyfran y pleidleiswyr drwy'r post sy'n dychwelyd eu papurau pleidleisio bob amser yn fwy na'r nifer sy'n mynd i orsaf bleidleisio: eleni, defnyddiodd 85.1% o etholwyr drwy'r post eu pleidlais bost o gymharu â 65.9% a aeth i orsaf bleidleisio.

4.5 Roedd pleidleisiau post yn cyfrif am 21.6% o'r holl bleidleisiau a gafodd eu cynnwys yn y cyfrif. Mae hyn yn cymharu â 20.5% yn 2015 a 18.8% yn 2009.

Tabl 4.2: Y nifer a bleidleisiodd drwy'r post o gymharu â'r nifer a aeth i orsaf bleidleisio[5]

	Nifer y pleidleiswyr post	Nifer a aeth i orsaf bleidleisio
2017	85.1%	65.9%
2015	85.8%	63.2%
2010	83.2%	62.6%

Papurau pleidleisio drwy'r post a wrthodwyd

4.6 Mae pecynnau pleidleisio drwy'r post yn gofyn i bleidleiswyr roi eu llofnod a'u dyddiad geni. Wedyn, caiff y manylion adnabod hyn eu cymharu â'r rhai a roddwyd ar adeg y cais. Os nad yw'r llofnod na'r dyddiad geni yn

[5] Gweler Atodiad A, 6.6

cyfateb neu os ydynt ar goll, caiff y bleidlais bost ei gwrthod ac ni chaiff ei chynnwys yn y broses gyfrif.

4.7 Ers 2014, mae'n ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol roi gwybod i etholwyr os cafodd eu pleidlais bost ei gwrthod a rhoi'r rheswm/rhesymau dros ei gwrthod. Gallant hefyd ofyn i'r etholwr ddarparu llofnod cyfredol.

Tabl 4.3: Papurau pleidleisio drwy'r post a wrthodwyd

	Papurau pleidleisio a wrthodwyd fel % o'r amlenni a ddychwelwyd
2017	2.4%
2015	3.3%
2010	3.8%

4.8 Mae cyfradd gwrthod pleidleisiau drwy'r post wedi gostwng i 2.4% o 3.3% yn 2015 a 3.8% yn 2010. Roedd y duedd hon yn gyson ledled y DU, yn amrywio o ostyngiad o 0.9 pwynt canran yn Lloegr a'r Alban i ostyngiad o 1.8 pwynt canran yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r duedd hon yn adlewyrchu gostyngiadau mewn etholiadau lleol yn 2017 ac yn awgrymu y gall y polisi newydd fod yn cael effaith gadarnhaol.

4.9 Caiff bron hanner yr holl bleidleisiau a wrthodwyd (48.5%) eu gwrthod oherwydd gwybodaeth nad yw'n cyfateb. Mewn traean o'r achosion (33.2%), cafodd pleidleisiau drwy'r post eu gwrthod am fod pleidleiswyr wedi dychwelyd eu hamlenni pleidleisio drwy'r post ond wedi methu â chynnwys y papur pleidleisio ei hun neu'r datganiad dilysu, neu'r ddau.

Tabl 4.4: Rhesymau dros wrthod datganiad pleidleisio drwy'r post

		2015	**2017**	**Newid (pc)**
Gwybodaeth ar goll	Llofnod	5.5%	5.4%	-0.1
	Dyddiad Geni	4.4%	5.0%	0.6
	Y ddau	10.7%	7.9%	-2.8
Gwybodaeth ddim yn cyfateb	Llofnod	25.0%	19.9%	-5.1
	Dyddiad Geni	20.4%	21.3%	1.0
	Y ddau	9.0%	7.3%	-1.7
Ffurflenni ar goll	**Papur pleidleisio**	10.1%	24.0%	13.9
	Datganiad pleidleisio drwy'r post	14.9%	9.2%	-5.7

4.10 Mae'n werth nodi bod y canrannau hyn ond yn cynrychioli niferoedd bach iawn o bleidleisiau drwy'r post. Er enghraifft, er bod 48.5% o bleidleisiau

drwy'r post a wrthodwyd wedi cael eu gwrthod oherwydd gwybodaeth nad yw'n cyfateb, mae hyn ond yn cynrychioli 1.2% o'r prif amlenni a dderbyniwyd a 0.3% o'r holl bleidleisiau a fwriwyd. Gwnaeth y mwyafrif helaeth o bleidleiswyr drwy'r post ffeilio eu ffurflenni yn gywir.

5 Dirprwyon a hepgoriadau

5.1 Penododd cyfanswm o 283,928 o etholwyr ddirprwy (0.6% o'r rhai oedd â hawl i bleidleisio). Mae hyn yn cymharu â 0.3% yn 2015.

5.2 Nifer y pleidleisiau drwy ddirprwyon brys a ddosbarthwyd ledled Prydain Fawr oedd 14,096. Mae hyn yn sylweddol uwch nag yn 2015 pan gafwyd 8,901 o geisiadau brys am bleidleisio drwy ddirprwy.

5.3 Roedd consesiwn a roddwyd dan delerau Deddf Gweinyddu Etholiadau 2006 yn nodi y gallai etholwyr drwy'r post ym Mhrydain Fawr oedd ag anabledd, neu oedd yn anllythrennog, neu nad oeddent yn gallu llunio llofnod cyson wneud cais am hepgoriad i ddefnyddio eu dyddiad geni fel yr unig fanylyn i'w hadnabod.

5.4 Yn 2017, cymeradwywyd 51,452 o hepgoriadau, sy'n cynrychioli 0.1% o'r rhai sydd â hawl i bleidleisio. Mae hyn yn gyson â 2015. Ar lefel etholaeth, roedd cyfran yr hepgoriadau a gymeradwywyd yn amrywio o 0.01% mewn pedair etholaeth yn Lloegr,[6] i 0.7% yn Bassetlaw.

6 Atodiad A

6.1 Mae anghysondebau o hyd yn y ffyrdd y mae awdurdodau lleol yn cofnodi ac yn adrodd gwybodaeth.

6.2 Rydym yn dal i sylwi ar wahaniaethau yn y dull o godio gwybodaeth gan feddalwedd rheoli etholiadol gwahanol. Er enghraifft, mae cwsmeriaid un cyflenwr meddalwedd rheoli etholiadol yn gyson yn nodi cyfran uwch o wybodaeth nad yw'n cyfateb o gymharu ag eraill.

6.3 Mae'n ymddangos bod anghysondebau yn ymwneud â'r rhesymau dros wrthod pleidleisiau post a chyfanswm y pleidleisiau post a wrthodir ar Ffurflen K yn deillio o'r ffaith y gellir eu dehongli a'u trin yn wahanol. Er enghraifft, wrth drin nifer y prif amlenni a'r papurau pleidleisio a ddychwelwyd, gellir anfon prif amlenni heb gynnwys amlen A neu ddatganiad pleidleisio drwy'r post, a gall y

[6] Hornsey a Wood Green, De-orllewin Swydd Hertford, Tottenham, a Chanol Efrog

ddogfen goll fod wedi'i hanfon mewn prif amlen ar wahân yn ddiweddarach, neu gall sawl papur pleidleisio fod wedi'u dychwelyd mewn un amlen.

6.4 Pan gysylltir ag awdurdodau lleol ynghylch anghysondebau o'r fath, yn aml ni allant roi ffigurau diwygiedig neu ni allant egluro pam roedd y data wedi'u codio yn y fath fodd. Yn ymarferol, rydym yn defnyddio cyfrifiad maes B6 tynnu maes C18 yn lle cyfanswm y pleidleisiau post a wrthodwyd ni waeth p'un a yw'r ffigur yr un fath â'r hyn a gofnodir ym maes C19.

6.5 Nid yw'r rhesymau gwahanol dros wrthod a gasglwyd ar y ffurflen ddata ychwanegol bob amser yn cyfateb i'r cyfrifiad B6 tynnu C18 hwn. Fodd bynnag, mae'r anghysondebau yn ymddangos yn llai difrifol ac mae gan y categorïau y fantais o fod wedi'u cynnwys mewn meddalwedd ac o gael ystyr fwy 'synnwyr cyffredin'. Byddai'n ymddangos yn synhwyrol ystyried cael tri chategori cyfunol arall yn lle meysydd B15-17 ar Ffurflen K: gwrthod am nad oedd y wybodaeth yn cyfateb; gwrthod am fod y wybodaeth adnabod ar goll; gwrthod am fod dogfennaeth ar goll. Fel ag y mae, mae maes B15 yn afraid i raddau helaeth am fod bron pob awdurdod bellach yn dilysu 100% o bleidleisiau post a ddychwelir.

6.6 Nid oes unrhyw faes sy'n nodi nifer y datganiadau pleidleisio drwy'r post a dderbyniwyd gan y Swyddog Canlyniadau neu mewn gorsaf bleidleisio cyn diwedd y cyfnod pleidleisio. Yn ymarferol, rydym yn defnyddio maes B6, 'Nifer y prif amlenni a dderbyniwyd gan y Swyddog Canlyniadau neu mewn gorsaf bleidleisio cyn diwedd y cyfnod pleidleisio' yn lle hynny, ond gwyddom, fel y nodwyd, y gall etholwyr ddychwelyd mwy nag un bleidlais bost mewn un amlen neu ddychwelyd amlenni heb bapurau pleidleisio ynddynt.

7 Atodiad B

Llenwch un Ffurflen K ar gyfer pob etholaeth
Ffurflen K: DATGANIAD O RAN PAPURAU PLEIDLEISIO DRWY'R POST
DEDDFAU CYNRYCHIOLAETH Y BOBL
Etholiad Seneddol

Etholaeth:
Dyddiad y Bleidlais:

A. Anfon papurau pleidleisio drwy'r post
1. Cyfanswm y papurau pleidleisio drwy'r post a anfonwyd o dan reoliad 71
2. Cyfanswm y papurau pleidleisio drwy'r post a anfonwyd o dan reoliad 77 (a ddifethwyd ac a ddychwelwyd i'w canslo), rheoliad 78 (a gollwyd neu nas derbyniwyd) a rheoliad 78A (a ganslwyd am fod y cyfeiriad wedi newid)

3. Cyfanswm y papurau pleidleisio drwy'r post a ganslwyd o dan reoliad 86A (lle y cafodd y papur pleidleisio cyntaf ei ganslo a'i adalw)
4. Cyfanswm y papurau pleidleisio drwy'r post a anfonwyd (1 i 3)
5. Cyfanswm y papurau pleidleisio a ganslwyd o dan reoliad 78A

B (1). Derbyn papurau pleidleisio drwy'r post ac anfon rhai newydd
6. Nifer y prif amlenni a dderbyniwyd gan y Swyddog Canlyniadau neu mewn gorsaf bleidleisio cyn diwedd y cyfnod pleidleisio (heb gynnwys unrhyw rai nas dosbarthwyd neu a ddychwelwyd o dan reoliad 77(1) (difethwyd), rheoliad 78(1) (collwyd) a rheoliad 86A (papurau pleidleisio a ganslwyd))
7. Nifer y prif amlenni a dderbyniwyd gan y swyddog canlyniadau ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio, ac eithrio unrhyw rai a ddychwelwyd fel papurau nas dosbarthwyd
8. Nifer y papurau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd wedi'u difetha i'w canslo mewn pryd i allu anfon papur pleidleisio arall
9. Nifer y papurau pleidleisio drwy'r post y nodwyd eu bod wedi'u colli neu heb eu dosbarthu mewn pryd i allu anfon papur pleidleisio arall
10. Nifer y papurau pleidleisio a ganslwyd ac a adalwyd mewn pryd i allu anfon papur pleidleisio arall
11. Nifer y papurau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd fel papurau wedi'u difetha yn rhy hwyr i allu anfon papur pleidleisio arall
12. Nifer y prif amlenni a ddychwelwyd fel amlenni nas dosbarthwyd (hyd at y 25ain diwrnod ar ôl y dyddiad pleidleisio)
13. Nifer y prif amlenni nas derbyniwyd gan y Swyddog Canlyniadau (erbyn y 25ain diwrnod ar ôl y dyddiad pleidleisio)
14. Cyfanswm y niferoedd ar gyfer 6 i 13 (dylai hwn fod yr un peth â'r cyfanswm yn eitem 4 uchod)

B (2). Derbyn papurau pleidleisio drwy'r post – Manylion Adnabod Personol
15. Nifer y prif amlenni a roddwyd o'r neilltu er mwyn dilysu'r manylion adnabod personol ar ddatganiadau pleidleisio drwy'r post
16. Nifer y datganiadau pleidleisio drwy'r post a fu'n destun gweithdrefn ddilysu ac a wrthodwyd fel datganiadau nas llenwyd (ac eithrio'r rhai a ganslwyd ymlaen llaw)
17. Nifer y datganiadau pleidleisio drwy'r post a wrthodwyd yn dilyn gweithdrefnau dilysu am nad oedd y manylion adnabod personol ar y datganiadau pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r rhai yn y cofnod o fanylion adnabod personol (heb gynnwys y rhai a ganslwyd ymlaen llaw)

C. Cyfrif papurau pleidleisio drwy'r post
18. Nifer y papurau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd gan bleidleiswyr post a gafodd eu cynnwys yn y broses o gyfrif papurau pleidleisio
19. Nifer yr achosion lle y rhoddwyd y gair “Gwrthodwyd” ar brif amlen neu ar ei chynnwys (nid yw pleidleisiau a ganslwyd o dan reoliadau 77, 78, 78A na 86A yn cyfrif fel rhai a wrthodwyd a dylid eu cynnwys yn eitemau 2, 3, 5, 8, 9 a 10 uchod)

Dyddiad:
Llofnod: **Swyddog Canlyniadau**
Awdurdod:

Ffurflen data ychwanegol
1) Sawl dirprwy a benodwyd ar gyfer yr etholiadau hyn?
2) Sawl dirprwy brys a benodwyd ar gyfer yr etholiadau hyn?
3) Sawl hepgoriad a gymeradwywyd ar gyfer yr etholiadau hyn?
4) Sawl pleidlais bost a wrthodwyd am y rhesymau canlynol:
a) Bod llofnod ar goll
b) Bod dyddiad geni ar goll
c) Bod y ddau ar goll
d) Nid oedd y llofnod yn cyfateb
e) Nid oedd y dyddiad geni yn cyfateb
f) Nid oedd y naill na'r llall yn cyfateb
g) Nid oedd y papur pleidleisio wedi'i ddychwelyd
h) Nid oedd datganiad pleidleisio drwy'r post wedi'i ddychwelyd
5) Beth oedd cyfanswm nifer y gorsafoedd pleidleisio a ddefnyddiwyd?
6) Sawl prif amlen a ddychwelwyd cyn 10pm ar y diwrnod pleidleisio?
7) Sawl prif amlen a ddychwelwyd cyn 10pm y diwrnod ar ôl y diwrnod pleidleisio?
8) Cyfanswm yr etholwyr newydd a ychwanegwyd at y gofrestr drwy'r hysbysiad newid cyntaf (11.05.17).
9) Cyfanswm yr etholwyr newydd a ychwanegwyd at y gofrestr rhwng yr ail hysbysiad newid a'r un olaf.
10) Cyfanswm nifer y ceisiadau i gofrestru a ddaeth i law ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cofrestru (22.05.17).
11) Cyfanswm y ceisiadau a ddaeth i law mewn da bryd i'w prosesu ar gyfer yr hysbysiad newid dros dro cyntaf (02.05.17)
12) Cyfanswm y ceisiadau dyblyg a ddaeth i law mewn da bryd i'w prosesu ar gyfer yr hysbysiad newid dros dro cyntaf (02.05.17).
13) Cyfanswm y ceisiadau a ddaeth i law rhwng y dyddiad olaf ar gyfer ceisiadau am yr hysbysiad newid dros dro cyntaf (02.05.17) a'r dyddiad olaf ar gyfer ceisiadau am yr hysbysiad newid olaf (22.05.17)
14) Cyfanswm y ceisiadau dyblyg a ddaeth i law rhwng y dyddiad olaf ar gyfer ceisiadau am yr hysbysiad newid cyntaf (02.05.17) a'r dyddiad olaf ar gyfer ceisiadau am yr hysbysiad newid olaf (22.05.17)
15) Faint o bobl a geisiodd bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio a chanfuwyd nad oeddent wedi'u cofrestru?